**CYTUNDEB GRANT Y GRONFA RADIO GYMUNEDOL ("Cytundeb Grant") FFRWD CYNALIADWYEDD**

Mae’r Cytundeb Grant hwn yn cael ei wneud rhwng:

(1) Y Swyddfa Gyfathrebiadau, Riverside House, 2a Southwark Bridge Road, Llundain SE1 9HA ("Ofcom"); ac

(2) «Enw'r_Cwmni»,
«Llinell_Cyfeiriad_1»,
«Llinell_Cyfeiriad_2»,
«Llinell_Cyfeiriad_3»,
«Llinell_Cyfeiriad_4»,
«Llinell_Cyfeiriad_5»,
«Cod post»
Rhif y Cwmni: «Rhif_tŷ_cwmnïau» (y "Trwyddedai"),

y cyfeirir at bob un yn unigol fel "Parti" ac ar y cyd fel "Partïon"

## 1 DIFFINIADAU AC ATODIADAU

1.1 Yn y Cytundeb Grant hwn, ystyr y termau yw’r hyn a bennir yn Nhabl 1 ac isod.

**Tabl 1**

| | |
|---|---|
| **Trwydded(au)** | **«Rhif_trwydded_CR»**<br>Lle mae’r Grant yn berthnasol i Drwyddedau lluosog, bydd unrhyw gyfeiriad at Drwydded yn y cytundeb hwn yn golygu pob Trwydded ar wahân. |
| **Gwasanaeth(au) trwyddedig** | **«Enw(au)_Gorsaf(oedd)»** |
| **Diben(au) dynodedig** | [Disgrifiad swydd / disgrifiad o'r prosiect, i'w gludo i mewn] |
| **Grant** | **£«Swm_Dyfarniad - rhestrwch y swm ar gyfer pob diben dynodedig»**<br>*«Nodiadau_Dyfarniad»* |
| **Cyfnod Gwariant Perthnasol** | **[ ] neu unrhyw ddyddiad diweddarach y gall y Panel ei gymeradwyo'n ysgrifenedig.** |

**Swyddog Cyfrifol Dynodedig (DRO)** yw'r unigolyn a restrir yn Atodiad 3, oni bai bod Ofcom yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

**Adroddiad Grant Terfynol** yw Adroddiad Grant a gyflwynir o fewn pedair wythnos i ddiwedd y Cyfnod Gwariant Perthnasol.

**Adroddiad Grant** yw adroddiad, ar y ffurf a bennir ar wefan Ofcom, sy'n manylu ar sut mae'r Trwyddedai wedi gwario'r Grant. Mae hyn yn cynnwys Adroddiadau Grant Dros Dro ac Adroddiadau Grant Terfynol.

**Adroddiad Grant Dros Dro** yw Adroddiad Grant a gyflwynir hanner ffordd drwy'r Cyfnod Gwariant Perthnasol neu, yn achos Dyfarniad Aml-Flwyddyn, bob chwe mis yn ystod y Cyfnod Gwariant Perthnasol.

**Dyfarniad Aml-Flwyddyn** yw Grant a ddyfernir gyda Chyfnod Gwariant Perthnasol o fwy na 14 mis.

**Adroddiad Grant Angyfrinachol** yw adroddiad, ar y ffurf a bennir ar wefan Ofcom, sy'n nodi gwariant terfynol cyffredinol y Grant. Dyma'r fersiwn o'r adroddiad y gall Ofcom ei gyhoeddi ar ei wefan.

**Cyfrif Banc Penodedig** yw'r cyfrif banc a nodir yn Atodiad 1 i'r Cytundeb Grant hwn, oni bai bod Ofcom yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

1.2 Mae'r Atodiadau yn rhan o'r Cytundeb Grant hwn.

## 2 YSTYRIAETH

2.1 Yn gyfnewid am i Ofcom ddyfarnu'r Grant i'r Trwyddedai, mae'r Trwyddedai'n cytuno i gyflawni'r rhwymedigaethau a nodir yng nghymal 3. Mae'r Partïon yn cadarnhau'n briodol eu bod yn derbyn y gydnabyddiaeth.

## 3 RHWYMEDIGAETHAU

3.1 Mae'r Trwyddedai yn cytuno i wario'r Grant yn unol â'r amodau a nodir yn y Cytundeb Grant hwn.

3.2 Rhaid i'r Trwyddedai wario'r Grant ar gyfer y Diben(ion) Dynodedig yn unig fel y nodir yn Nhabl 1, oni bai bod Ofcom yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig. Pan fo'r Grant yn berthnasol i fwy nag un diben, rhaid i'r Trwyddedai ddefnyddio'r rhan o'r Grant a ddyrannwyd at ddiben penodol yn Nhabl 1 i ariannu'r diben penodol hwnnw yn unig.

3.3 Rhaid i'r Trwyddedai wario'r Grant o fewn y Cyfnod Gwariant Perthnasol neu ddyddiad diweddarach y mae Ofcom yn cytuno iddo yn ysgrifenedig.

3.4 Rhaid i'r Trwyddedai beidio â gwario, nac ymrwymo fel arall, unrhyw ran o'r Grant oni bai bod y Swyddog Cyfrifol Dynodedig (DRO) wedi rhoi awdurdodiad ymlaen llaw ar gyfer gwario'r Grant ar gyfer y Diben(ion) Dynodedig. Rhaid i'r Trwyddedai gadw cofnod o bob awdurdodiad o'r fath yn unol â chymal 3.8.

3.5 Rhaid i'r Trwyddedai

3.5.1 gadw'r holl arian Grant yn y Cyfrif Banc Penodedig, a nodir yn Atodiad 1, hyd nes y bydd y DRO wedi rhoi ei awdurdodiad i wario'r Grant (neu ran o'r Grant) ar y Diben(ion) Dynodedig neu y caiff y Grant yn cael ei ad-dalu i Ofcom, oni bai bod Ofcom yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig;

3.5.2 dal unrhyw ran nas defnyddiwyd o'r Grant yn y Cyfrif Banc Penodedig ar ymddiriedolaeth i Ofcom bob amser; a

3.5.3 darparu ar unwaith i'r DRO yr wybodaeth, y cofnodion a'r dystiolaeth sy'n ymwneud â'r cyfrif hwnnw y gall y DRO ofyn amdanynt yn rhesymol i reoli'r Grant a gwirio ei fod wedi'i wario yn unol â'r Cytundeb Grant hwn. Gall hyn gynnwys datganiadau banc a thystiolaeth arall sy'n dangos bod

y Grant wedi'i wario yn unol ag awdurdodiad y DRO a bod unrhyw Grant heb ei wario yn parhau i gael ei ddal yn y Cyfrif Banc Penodedig.

3.6 Rhaid i'r Trwyddedai gyflwyno Adroddiad Grant cyflawn a chywir i Ofcom yn manylu ar wariant y Grant. Rhaid i'r Adroddiad Grant:

3.6.1 gael ei ddarparu ar bob un o'r pwyntiau canlynol:

a) hanner ffordd drwy'r Cyfnod Gwariant Perthnasol neu, os yw'r Grant yn ymwneud â Dyfarniad Aml-flwyddyn, bob chwe mis yn ystod y Cyfnod Gwariant Perthnasol (yr Adroddiad Grant Dros Dro);
b) o fewn pedair wythnos i ddiwedd y Cyfnod Gwariant Perthnasol (yr Adroddiad Grant Terfynol); ac
c) mewn ymateb i gais ysgrifenedig gan Ofcom, o fewn yr amser a bennir yn y cais.

3.6.2 lle mae'r Grant cyfan neu ran ohono wedi'i wario, cynnwys:

a) dadansoddiad o'r gwariant ar gyfer pob Diben Dynodedig a
b) prawf o'r gwariant hwn gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, datganiadau banc sy'n tystio i wariant, anfonebau, slipiau cyflog a derbynebau.

3.6.3 lle mae'n Adroddiad Grant Terfynol, cadarnhau,

a) a yw'r Grant wedi'i wario'n llawn ai peidio;
b) os nad yw unrhyw ran o'r Grant wedi'i gwario,

i. swm y Grant sy'n parhau heb ei wario a
ii. pryd y mae’r Trwyddedai yn bwriadu dychwelyd y Grant heb ei wario, a hynny o fewn 30 diwrnod fan bellaf i ddiwedd y Cyfnod Gwariant Perthnasol (gweler cymal 3.14).

3.7 Rhaid i'r Trwyddedai gyflwyno Adroddiad Grant Angyfrinachol i Ofcom, ar y ffurf a bennir ar wefan Ofcom, o fewn pedair wythnos i ddiwedd y Cyfnod Gwariant Perthnasol.

3.8 Rhaid i'r Trwyddedai gadw cyfrifon a chofnodion llawn a chywir o wariant y Grant am gyfnod o leiaf bum mlynedd ar ôl dyddiad y Cytundeb Grant hwn. Rhaid i hyn gynnwys:

3.8.1 yr awdurdodiad(au) DRO perthnasol (fel yr eglurir yng nghymal 3.4) a
3.8.2 prawf o wariant y Grant (fel y nodir yng nghymal 3.6.2).

3.9 Yn ystod y cyfnod Gwariant Perthnasol ac ar ôl dyddiad y Cytundeb Grant hwn, rhaid i'r Trwyddedai ddarparu unrhyw adroddiadau, dogfennaeth a/neu wybodaeth ychwanegol ynghylch gwariant y Grant y gall Ofcom ofyn yn rhesymol amdanynt yn ysgrifenedig (o fewn yr amser a bennir gan Ofcom).

3.10 Rhaid i'r Trwyddedai hysbysu Ofcom yn ysgrifenedig ar unwaith am unrhyw fater a allai ohirio neu effeithio ar wariant y Grant[1].

---

[1]Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â thîm cronfa radio cymunedol Ofcom yn communityradiofund@ofcom.org.uk.

3.11 Rhaid i'r Trwyddedai hysbysu Ofcom ar unwaith am unrhyw newidiadau sylweddol i wybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol i Ofcom mewn perthynas â'r broses Grant a/neu ddyfarnu, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â;

3.11.1 y Cyfrif Banc Penodedig,
3.11.2 y DRO,
3.11.3 achos lle mae'r Gwasanaeth(au) Trwyddedig wedi rhoi'r gorau i ddarlledu;[2] a
3.11.4 unrhyw wybodaeth arall a fyddai, neu a allai'n rhesymol effeithio ar allu'r Trwyddedai i wario'r Grant yn unol â'r Cytundeb Grant hwn.

3.12 Pan fydd Ofcom yn hysbysu'r Trwyddedai o dan gymal 4.1 fod y Grant cyfan neu unrhyw ran ohono i'w ad-dalu, rhaid i'r Trwyddedai ad-dalu'r swm a bennir yn yr hysbysiad drwy drosglwyddiad BACS o fewn 30 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad, neu unrhyw gyfnod arall y gall Ofcom ei bennu yn ysgrifenedig.

3.13 Pan fydd Ofcom yn cyhoeddi hysbysiad i'r Trwyddedai o dan gymal 4.1 neu gymal 4.4 yn terfynu'r Cytundeb Grant hwn, neu pan fydd y Cytundeb Grant hwn yn cael ei derfynu fel arall, rhaid i'r Trwyddedai, o fewn 30 diwrnod i ddyddiad yr hysbysiad terfynu (neu unrhyw gyfnod arall y gall Ofcom ei bennu yn ysgrifenedig), ad-dalu i Ofcom drwy drosglwyddiad BACS unrhyw ran o'r Grant sy'n parhau heb ei wario neu na chafodd ei wario ar y Diben(ion) Dynodedig yn ystod y Cyfnod Gwariant Perthnasol, oni bai bod Ofcom yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

3.14 Rhaid i'r Trwyddedai ad-dalu i Ofcom unrhyw ran o'r Grant sy'n parhau heb ei wario ar ddiwedd y Cyfnod Gwariant Perthnasol o fewn 30 diwrnod i ddiwedd y cyfnod hwnnw drwy drosglwyddiad BACS, oni bai bod Ofcom yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

3.15 Rhaid i'r Trwyddedai gydymffurfio ag unrhyw hysbysiad a roddir gan Ofcom o dan gymal 4.2.1 o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad hwnnw.

## 4 TYNNU'N ÔL A THERFYNU

4.1 Caiff Ofcom, drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r Trwyddedai wrthod talu'r Grant, oedi talu'r Grant; lleihau swm y Grant, ei gwneud yn ofynnol i'r Trwyddedai ad-dalu'R Grant cyfan neu unrhyw ran ohono i Ofcom; a/neu derfynu'r Cytundeb Grant os bydd unrhyw un o'r digwyddiadau canlynol yn digwydd:

4.1.1 mae'r Trwyddedai yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'i rwymedigaethau yng nghymalau 3.1 i 3.6 a 3.8 i 3.11 neu'n torri unrhyw delerau eraill o'r Cytundeb Grant hwn sy'n berthnasol ym marn Ofcom;

4.1.2 nid yw cyflawni'r Diben Dynodedig yn dechrau o fewn tri mis i'r dyddiad y Cytundeb Grant hwn;

4.1.3 mae gan Ofcom achos rhesymol i gredu na fydd y Grant yn cael ei wario erbyn diwedd y Cyfnod Gwariant Perthnasol;

[2] Mae i 'darlledu' yr un ystyr ag yn adran 405 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 h.y. yn golygu darlledu drwy delegraffiaeth ddi-wifr. Felly, nid yw gwasanaeth ar-lein yn unig yn gymwys.

4.1.4 mae'r Adroddiad Grant Dros Dro yn dangos bod y Trwyddedai, ym marn Ofcom, yn methu â gwneud cynnydd boddhaol tuag at gyflawni'r Diben Dynodedig;

4.1.5 mae'r Trwyddedai yn darparu unrhyw wybodaeth gamarweiniol neu anghywir i Ofcom yn ei gais am grant neu mewn gohebiaeth ddilynol gysylltiedig;

4.1.6 yn ystod y Cyfnod Gwariant Perthnasol, mae'r Trwyddedai neu ei gyfarwyddwyr, neu ei weithwyr yn gwneud neu'n peidio gwneud rhywbeth sy'n debygol o ddwyn anfri i Ofcom;

4.1.7 mae'r Trwyddedai:

a. yn rhoi'r gorau i weithredu am unrhyw reswm, neu'n pasio penderfyniad (neu fod unrhyw lys ag awdurdodaeth gymwys yn gwneud gorchymyn) iddo gael ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu (ac eithrio at ddiben ailadeiladu neu uno bona fide a diddyled);
b. yn dod yn fethdalwr fel y'i diffinnir gan adran 123 o Ddeddf Ansolfedd 1986, neu yn cael ei ddatgan yn fethdalwr, neu'n cael ei roi mewn derbynnyddiaeth, gweinyddiaeth neu ddiddymiad, neu os cyflwynwyd deiseb i'w ddirwyn i ben, neu os aiff i mewn i unrhyw drefniant neu gyfansoddiad er budd ei gredydwyr, neu os nad yw'n gallu talu ei ddyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus;

4.1.8 mae llys, tribiwnlys, corff neu awdurdod annibynnol ag awdurdodaeth gymwys yn ei gwneud yn ofynnol i'r Grant gael ei adennill oherwydd torri rhwymedigaethau domestig y DU o dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 neu ei rhwymedigaethau rhyngwladol.

4.1.9 mae'r Drwydded yn cael ei dirymu;

4.1.10 pan fydd Ofcom wedi derbyn hysbysiad gan y Trwyddedai yn unol â chymal 3.10 a 3.11, neu os oes gan Ofcom achos rhesymol i gredu bod yr orsaf y mae'r Grant yn ymwneud â hi wedi rhoi'r gorau i ddarlledu[3];

4.1.11 pan fo'r Trwyddedai wedi nodi yn ei gais am y Grant ei fod wedi gwneud cais am estyniad i hyd y Drwydded berthnasol a bod Ofcom yn gwrthod y cais hwnnw am estyniad.

4.2 Os yw Ofcom yn dymuno arfer unrhyw hawl o dan gymal 4.1 mewn cysylltiad â digwyddiad y mae Ofcom yn ei ystyried yn un y gellir ei unioni:

4.2.1 Bydd Ofcom yn rhoi hysbysiad rhesymol i'r Trwyddedai yn nodi manylion y digwyddiad, sut y mae'n rhaid ei ddatrys a'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r camau hyn; a

4.2.2 Gall Ofcom arfer yr hawl berthnasol o dan gymal 4.1 os na fydd y Trwyddedai yn cymryd y camau unioni perthnasol i foddhad Ofcom o fewn y cyfnod penodedig.

[3] Mae i 'darlledu' yr un ystyr ag yn adran 405 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 h.y. yn golygu darlledu trwy delegraffiaeth ddi-wifr. Felly, nid yw gwasanaeth ar-lein yn unig yn gymwys.

4.3 Os yw Ofcom yn dymuno arfer unrhyw hawl o dan gymal 4.1 mewn cysylltiad ag unrhyw ddigwyddiad y mae'n ei ystyried yn anadferadwy, gall Ofcom arfer yr hawl berthnasol ar unwaith.

4.4 Fel arall, gall y Partïon derfynu'r Cytundeb Grant hwn trwy gytundeb ysgrifenedig ar y cyd.

4.5 Ni fydd terfynu'r Cytundeb Grant hwn yn effeithio ar unrhyw rwymedigaethau gan y Trwyddedai sy'n ymwneud ag adrodd a chadw cofnodion o dan gymalau 3.8 a 3.9

4.6 Bydd unrhyw Grant neu ran o'r Grant sy'n ad-daladwy yn adennilladwy ar unwaith fel dyled sifil.

## 5 RHEOLI CYMORTHDALIADAU

5.1 Dyfernir y Grant ar sail nad yw'r gofynion rheoli cymorthdaliadau yn gymwys yn rhinwedd adran 36 o Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 ac mae'n ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn Atodiad 1 o'r Cytundeb Grant hwn. Mae'r cymal hwn ynghyd ag Atodiad 1 yn gyfystyr â chadarnhad cymorth ariannol lleiaf Ofcom at ddibenion adran 37(4) o Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

## 6 TAW

6.1 Mae'r Trwyddedai yn cydnabod nad yw'r Grant yn gydnabyddiaeth am unrhyw gyflenwad trethadwy at ddibenion TAW gan y Trwyddedai i Ofcom.

## 7 HYD A THERFYNU

7.1 Bydd y Cytundeb Grant hwn yn dod i rym ar ddyddiad llofnodi diweddaraf y ddau Barti a bydd yn parhau mewn grym hyd nes y cyflawnir yr holl rwymedigaethau sy'n deillio o'r Cytundeb Grant oni bai y caiff ei derfynu yn unol â chymal 4 (yn ddarostyngedig i gymal 4.5).

## 8 FORCE MAJEURE

8.1 Ni fydd methu â chyflawni rhwymedigaethau'r Parti yn unol â'r Cytundeb Grant neu oedi wrth eu cyflawni yn gyfystyr â thorri'r Cytundeb os yw oherwydd digwyddiad 'force majeure' ac am gyhyd ag y bo hyn yn wir. Mae digwyddiad force majeure yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i: camau gweithredu llywodraethol; gofyniad awdurdod rheoleiddio; cloeon allan; streiciau; prinder cludiant; rhyfel; gwrthryfel neu gamau milwrol arall; terfysgaeth; tân; llifogydd; trychinebau naturiol ac unrhyw rwystrau annisgwyl eraill nad yw Parti yn gallu eu goresgyn gydag ymdrechion rhesymol. Mae'r ddarpariaeth force majeure hon yn berthnasol i fethiant i gyflawni rhwymedigaethau gan is-gontractwr i Barti yn unol ag unrhyw un o'r darpariaethau uchod. Rhaid i'r Parti sy'n cael ei atal rhag cyflawni ei rwymedigaethau ar ôl dod yn ymwybodol o'r digwyddiad hwnnw, hysbysu'r Parti arall yn ysgrifenedig am y digwyddiad force majeure cyn gynted â phosibl. Os yw'r digwyddiad force majeure yn parhau am fwy na deufis, bydd gan y naill Barti neu'r llall yr hawl i derfynu'r Cytundeb Grant ar unwaith trwy hysbysiad ysgrifenedig.

## 9 DATGELU

9.1 Mae Ofcom yn ddarostyngedig i rwymedigaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth ac efallai y bydd yn rhaid iddo ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Grant, er enghraifft o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

9.2 Mae'r Trwyddedai yn cydnabod ac yn derbyn bod Ofcom yn bwriadu cyhoeddi o leiaf y wybodaeth ganlynol am y Grant: enw'r Trwyddedai, swm y Grant a ddyfarnwyd, enw a lleoliad yr orsaf berthnasol, y Diben Dynodedig a'r ffordd y mae'r Grant wedi'i wario, gan gynnwys yr Adroddiad Grant Angyfrinachol.

**10 AMRYWIOL**

10.1 Mae'r Cytundeb Grant hwn yn cael ei lywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr ac mae'r partïon yn cyflwyno'n ddiwrthdroadwy i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.

10.2 Bydd unrhyw anghydfod sy'n codi o'r Cytundeb Grant hwn neu mewn cysylltiad ag ef yn destun penderfyniad gan ddefnyddio prosesau datrys anghydfodau amgen i'w cytuno rhwng y Partïon.

**11 LLOFNODWYD**

Rydym yn derbyn telerau ac amodau'r Cytundeb Grant hwn.

| | |
|---|---|
| **Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran y Trwyddedai gan:** | {{:llofnodwr1:llofnod}} |
| Enw (yn llawn): | {{ *enw__:llofnodwr1 }} |
| Swydd yn y sefydliad: | {{ *swydd_:llofnodwr1 }} |
| Dyddiad: | {{*Dyddiad:llofnodwr1}} |

| | |
|---|---|
| **Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran Ofcom gan:** | {{llofnodwr3:llofnod}} |
| Enw (yn llawn): | {{ *enw_:llofnodwr3 }} |
| Swydd yn y sefydliad: | {{ *swydd_:llofnodwr3 }} |
| Dyddiad: | {{Dyddiad:llofnodwrr3}} |

## ATODIAD 1: DEDDF RHEOLI CYMHORTHDALIADAU

1. Dyfernir y Grant yn unol ag Adran 36 o'r Ddeddf Rheoli Cymhorthdaliadau sy'n galluogi'r Trwyddedai i dderbyn hyd at uchafswm o gymhorthdal heb ymgysylltu â'r gofynion rheoli cymorthdaliadau (ac eithrio'r gofynion tryloywder ar gyfer cymorthdaliadau dros £100,000) o dan y Ddeddf ("Isafswm Cymorth Ariannol"). Y trothwy cyfredol yw £315,000 i un fenter dros flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol ("y Cyfnod Cymwys").

2. Mae'r Trwyddedai yn cydnabod ac yn derbyn bod y terfyn perthnasol ar gyfer Isafswm Cymorth Ariannol yn cynnwys Isafswm Cymorth Ariannol arall, Cymorth SPEI, Symiau Bach o Gymorth Ariannol a roddir o dan Erthyglau 364(4) neu 365(3) o Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU-UE, a Chymorth Gwladwriaethol De Minimis ("Cymhorthdal/Cymhorthdaliadau Esempt"), ni waeth a ddarparwyd cymhorthdal neu'r cymorth hwnnw gan awdurdodau cyhoeddus eraill a'u hasiantau, yn gysylltiedig â phrosiectau eraill neu wedi'i wneud drwy ddulliau heblaw grantiau (er enghraifft, llog a ildiwyd ar fenthyciadau) a ddyfarnwyd i'r Derbynnydd Grant dros y Cyfnod Perthnasol.

3. Mae Ofcom wedi darparu hysbysiad Isafswm Cymorth Ariannol i'r Trwyddedai ac mae'r Trwyddedai wedi darparu ffurflen ddatganiad Isafswm Cymorth Ariannol i Ofcom yn cadarnhau faint o Gymhorthdal Esempt os o gwbl, y mae wedi'i dderbyn yn y Cyfnod Perthnasol ac nad yw'r symiau hynny ynghyd â'r Grant yn fwy na'r terfyn perthnasol ar gyfer Isafswm Cymorth Ariannol.

4. Mae'r Trwyddedai yn cydnabod mai cyfrifoldeb y Trwyddedai yw darllen y Ddeddf Rheoli Cymhorthdaliadau yn ei chyfanrwydd, a cheisio cyngor (gan gynnwys cyngor cyfreithiol) ar ei chymhwyso i fusnes y Derbynnydd Grant os yw'n briodol.

## ATODIAD 2: Cyfrif Banc Penodedig

Bydd y Grant yn cael ei dalu drwy BACS i'r Cyfrif Banc Penodedig a nodir yn yr Atodiad hwn.

**Datganiad:**

Mae'r Trwyddedai yn  cadarnhau bod y manylion banc a ddarperir isod yn enw'r Trwyddedai ac y bydd yn dal y Grant yn y Cyfrif Banc Penodedig hwn, oni bai ei fod yn cael ei wario neu ei ad-dalu i Ofcom yn unol â'r Cytundeb Grant hwn.

| | |
|---|---|
| **Rhif y Drwydded** | «CR_licence_No» |
| **Gwasanaeth Trwyddedig** | «Station_Name» |
| **Trwyddedai** | **«Company_name»** |
| **Enw Banc** | **{{ *Bank_Name_es_:signer1:multiline(2) }}** |
| **Enw'r Cyfrif** | **{{ *Account_Name_es_:signer1 }}** |
| **Rhif y Cyfrif** | **{{*Account_Number_es_:signer1 }}** |
| **Cod Didoli** | **{{ *Sort_Code_es_:signer1 }}** |
| **Cyfeiriad y Banc** | **{{ *Bank_Address_es_:signer1:multiline(7) }}** |

**Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran y Trwyddedai gan:**

**Dyddiad:**

**ATODIAD 3 – Swyddog cyfrifol dynodedig (DRO)**

Y person a bennir isod yw'r DRO at ddibenion y Cytundeb Grant hwn, oni bai bod Ofcom yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Swydd** | |